# Trefniadau Gwrth-dwyll

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Ebrill 2026

Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn dan y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych chi'n ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru, a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

### Os oes angen unrhyw help arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall arnoch:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ein canfyddiadau | 6 |
| Argymhellion | 10 |
| Atodiadau | 12 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 13 |
| 2 Amdanom ni | 15 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Yn 2020, fe wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru 15 o argymhellion yn ei adroddiad, Gwella ein Perfformiad: Mynd i'r Afael a Thwyll yng Nghymru, a hynny er mwyn gwella'r ffordd y mae sector cyhoeddus Cymru yn mynd i'r afael â thwyll. Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor i atal a chanfod twyll gan ystyried yr argymhellion blaenorol hynny. Fe wnaeth yr archwiliad fwrw golwg ar:

- arweinyddiaeth a diwylliant;
- rheoli a rheolaeth risg;
- polisïau a hyfforddiant;
- capasiti ac arbenigedd;
- offer a data;
- cydweithredu; a
- llywodraethu.

## Pam y mae hyn yn bwysig

2 Mae'r risg o dwyll yn fygythiad mwyfwy cyffredin i bron pob rhan o fywyd o ddydd i ddydd. Mae'r risg o dwyll yn gyffredin ar draws pob agwedd ar y sector cyhoeddus. Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2024, Overview of the impact of fraud and error on public funds mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn amlygu amcangyfrif Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PSFA) fod twyll a gwallau wedi costio rhwng £55 biliwn ac £81 biliwn i drethdalwr y DU yn 2023-24. Mae hyn yn awgrymu y gallai colledion trwy dwyll fod yn sylweddol i bob cyngor.

3 Mae trefniadau gwrth-dwyll cryf yn helpu'r Cyngor i ddiogelu ei arian a chynnal hyder y cyhoedd yn y modd y mae’n rheoli adnoddau. Maent hefyd yn helpu i ddangos bod y Cyngor yn atebol ac y gellir ymddiried ynddo.

## Yr hyn a ganfuom

4 Mae gan y Cyngor strategaeth gwrth-dwyll sy'n amlinellu dull dim goddefgarwch lle mae twyll yn y cwestiwn. Fodd bynnag, nid yw'r safiad dim goddefgarwch hwn wedi trosi eto i drefniadau cynhwysfawr ac effeithiol. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y Cyngor wedi cydnabod rhai gwendidau yn ei drefniadau gwrth-dwyll ac roedd yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhain. Yn bwysig, mae ganddo gynlluniau ffurfiol eisoes ar waith i ddatblygu asesiad risg o dwyll, cynllun gwrth-dwyll a chynllun annibynnol ymateb i dwyll. Roedd yn bwriadu cwblhau'r camau hyn erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Gallai hyn liniaru llawer o'r materion rydyn ni'n eu nodi yn yr adroddiad hwn.

## Yr hyn yr ydym ni'n ei argymell

5 Rydym wedi gwneud saith argymhelliad ar gyfer gwella, sy'n cynnwys y Cyngor yn mynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn ei drefniadau. Yn benodol, rydym hefyd yn argymell bod y Cyngor yn cryfhau ei drefniadau presennol ar gyfer hyfforddiant gwrth-dwyll, gwiriadau cyn cyflogaeth a chyhoeddi achosion o dwyll a brofwyd.

# Ein canfyddiadau

## Arweinyddiaeth a diwylliant

6 Mae Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth gyfredol y Cyngor yn nodi ei safiad dim goddefgarwch i dwyll. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ei threfniadau gwrth-dwyll a chysylltiadau â pholisïau cysylltiedig eraill.

7 Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (PLIA) yn pwysleisio pwysigrwydd canfod twyll. Mae hyn wedi arwain at ychwanegu risgiau twyll at y Gofrestr Risg Strategol. Mae hyn yn dangos cefnogaeth gorfforaethol y Cyngor i'r agenda gwrth-dwyll. Bydd y diwylliant hwn yn bwysig wrth weithredu'r gwelliannau sydd eu hangen i drefniadau gwrth-dwyll y Cyngor.

## Fframwaith rheoli a rheolaeth risg

8 Mae'n bwysig i'r Cyngor asesu'r risg o dwyll ar draws pob maes gwasanaeth, er mwyn llywio ei waith ataliol gwrth-dwyll. Mae'r Cyngor yn asesu'r risg o dwyll o fewn ei wasanaethau. Wrth wneud hynny, mae Rheolwr Archwilio Mewnol y Cyngor yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r holl benaethiaid gwasanaeth, cyfarwyddwyr a’r PLIA yn flynyddol trwy'r ymarfer cynllunio archwilio seiliedig ar risg ac yn rhannu'r wybodaeth hon ag uwch arweinwyr. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dwyn ynghyd â gwybodaeth risg twyll mewnol ac allanol arall, i lywio asesiad risg twyll ffurfiol. Gallai diffyg asesiad risg twyll cynhwysfawr arwain at fethu canfod risgiau twyll posibl sydd angen eu lliniaru o fewn y cynllun gwaith gwrth-dwyll.

9 Nid oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod Archwilio Mewnol bob amser yn ymgysylltu â gwaith asesu prosiectau a pholisïau newydd ar gyfer risgiau twyll posibl. Heb eu cyfranogiad, efallai na fydd y risg o wendidau twyll mewn prosiectau a pholisïau newydd yn cael eu hystyried na'u nodi'n llawn.

# Polisïau a hyfforddiant

10 Mae ymateb y Cyngor i amheuon o dwyll wedi'i ddiffinio o fewn ystod o ddogfennau a pholisïau sy'n cwmpasu pob llwybr i'r broses. Gellid cryfhau'r trefniadau hyn pe bai'r Cyngor yn cyflwyno un cynllun ymateb i dwyll, y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni erbyn mis Mawrth 2026.

11 Gwelsom gyfleoedd i gryfhau darpariaeth y Cyngor o hyfforddiant gwrth-dwyll. Mae'n darparu hyfforddiant ar-lein i'w staff a chynghorwyr. Erbyn dechrau mis Hydref 2025, ddeng mis ar ôl cael ei gyflwyno, roedd 850 (13%) o'i gyfanswm o 6,500 o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gwrth-dwyll. Nid yw'r hyfforddiant yn orfodol, ac ar y gyfradd bresennol hon byddai'r Cyngor yn cymryd dros chwe blynedd i hyfforddi'r holl staff. Nid yw wedi gosod targed ar gyfer cwblhau neu gwmpasu, ac nid yw ychwaith yn blaenoriaethu'r hyfforddiant i staff mewn rolau lle mae twyll yn risg uwch.

12 Mae'n bwysig bod staff a chynghorwyr yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar drefniadau gwrth-dwyll y Cyngor. Bydd hyn yn atgyfnerthu ei ddull dim goddefgarwch lle mae twyll yn y cwestiwn ac yn helpu i gadw staff a chynghorwyr yn ymwybodol o drefniadau gwrth-dwyll. Bydd hefyd yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau i helpu i warchod rhag risgiau twyll.

13 Cyn caniatáu i weithwyr newydd ddechrau ar eu gwaith, mae'r Cyngor yn cwblhau cyfres o wiriadau cyn cyflogaeth, a nodir yn ei Bolisi Recriwtio Diogel. Fodd bynnag, nid oes gan y gwiriadau cyn-gyflogaeth hyn bwyslais penodol ar wrth-dwyll. Hefyd, nid yw'r Cyngor wedi gwerthuso pob swydd a rôl o fewn y sefydliad i nodi'r rhai sydd â mwy o risg o dwyll. Gallai ymestyn ei wiriadau cyn cyflogaeth gryfhau trefniadau ataliol gwrth-dwyll y Cyngor ymhellach.

14 Yn gadarnhaol, gwelsom enghreifftiau o'r Cyngor yn cyhoeddi achosion o dwyll a ganfuwyd ac erlyniadau llwyddiannus. Fodd bynnag, roedd hyn fesul achos ac ni chafodd ei gefnogi gan drefniadau ffurfiol sy'n nodi disgwyliadau'r Cyngor. Gall absenoldeb dull cytunedig, ynghyd â rhybudd dealladwy uwch swyddogion i roi cyhoeddusrwydd i rai achosion twyll, gyfyngu ar atal ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o lwyddiant y Cyngor wrth ganfod twyll.

## Capasiti ac arbenigedd

15 Mae gan y Cyngor y capasiti a'r arbenigedd priodol sydd eu hangen i fynd i'r afael â risgiau twyll. Mae wedi penodi swyddog arweiniol ar gyfer gwrth-dwyll sy'n cael ei gefnogi gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol sy'n bodloni safonau proffesiynol cydnabyddedig. Mae'r Cyngor yn cael cymorth pellach gan gontractwyr allanol arbenigol ar gyfer gwaith gwrth-dwyll ataliol pan fo angen.

16 Gallai'r Cyngor gryfhau ei ddull drwy nodi'n glir yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gwaith gwrth-dwyll ataliol. Mae ei Gynllun Archwilio Mewnol yn dyrannu adnoddau ar gyfer gwaith gwrth-dwyll ataliol, ond nid oes manylion ynghylch hyn. Heb gynllun penodol ar gyfer gwaith ataliol sy'n manylu ar yr adnoddau angenrheidiol a'r amserlen gyflawni, ni all y Cyngor fod yn sicr y bydd gwaith gwrth-dwyll ataliol yn cael ei gwblhau. Mae'n bwysig bod y cynllun ar gyfer gwaith gwrth-dwyll ataliol yn ymateb i risgiau twyll a nodwyd yn ei asesiad risg o dwyll. Mae'r Cyngor yn bwriadu cwblhau cynllun o'r fath erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

## Offer, data a chydweithio

17 Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau, gan gynnwys Memoranda o Ddealltwriaeth, i rannu deallusrwydd o ran twyll gyda sefydliadau partner sector cyhoeddus. Er enghraifft, mae'r rhain yn cwmpasu'r Adran Gwaith a Phensiynau, yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, a Swyddfa'r Cabinet.

18 Mae'r Cyngor yn defnyddio dadansoddeg data a methodolegau cydnabyddedig, gan gynnwys y Fenter Twyll Genedlaethol (MTG), i feintioli colledion posibl yn sgil twyll, er enghraifft, wrth gyfrifo hawliadau budd-dal tai twyllodrus. Gellid cryfhau hyn ymhellach trwy agregu ei golledion twyll cyfrifedig. Gallai hyn helpu'r Cyngor i nodi lle mae effaith twyll yn fwy a chaniatáu iddo ddyrannu adnoddau i effeithio ar hyn.

19 Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor weithiau'n gwerthuso digwyddiadau twyll ar ôl i'r ymchwiliadau gael eu cwblhau. Mae'r dull hwn yn cefnogi dysgu ac yn nodi anghenion adnoddau. Fodd bynnag, gwelsom gyfleoedd i'r Cyngor wella cysondeb ei werthusiadau ar ôl digwyddiadau twyll. Gall hyn helpu i gryfhau sicrwydd a manteisio ar gyfleoedd ar gyfer gwella.

## Llywodraethu

20 Mae’r PLIA y Cyngor yn goruchwylio gweithgarwch gwrth-dwyll y Cyngor. Mae’r PLIA yn derbyn diweddariadau ymchwiliad bedair gwaith y flwyddyn. Mae hefyd yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan Archwilio Mewnol ar weithgarwch a chynnydd yn erbyn targedau twyll yn ei Raglen Sicrwydd a Gwella Ansawdd. Adroddir rhestr wirio MTG y Cyngor hefyd i’r PLIA, ac mae eitemau sy'n gysylltiedig â thwyll yn y gofrestr risgiau corfforaethol hefyd yn cael eu diweddaru a'u hadrodd.

21 Fodd bynnag, mae'r diffyg asesiad risg o dwyll cynhwysfawr a chynllun gwrth-dwyll ar gyfer gwaith ataliol yn cyfyngu'r sicrwydd y gall y PLIA gymryd bod trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor yn gwbl effeithiol. Bydd ei oruchwyliaeth yn bwysig wrth i'r Cyngor fynd i'r afael â'r bylchau hyn a gweithredu'r gwelliannau arfaethedig i'w drefniadau gwrth-dwyll.

# Argymhellion

Ar adeg ein harchwiliad, roedd y Cyngor wedi cydnabod rhai gwendidau yn ei drefniadau gwrth-dwyll ac roedd yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhain. Yn bwysig, mae ganddo gynlluniau ffurfiol eisoes ar waith i ddatblygu asesiad risg twyll, cynllun gwrth-dwyll a chynllun ymateb i dwyll annibynnol. Roedd yn bwriadu cwblhau'r rhain erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

| | |
|---|---|
| **A1** | Dylai'r Cyngor ddatblygu asesiad risg o dwyll cynhwysfawr i nodi'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor ar draws ei wasanaethau (**paragraff 8**). |
| **A2** | Dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau presennol drwy ffurfioli cyfranogiad staff gwrth-dwyll pan fydd y Cyngor yn cyflwyno neu'n newid polisïau a systemau i sicrhau bod y risg o dwyll yn cael ei asesu a'i datrys (**paragraff 9**). |
| **A3** | Dylai'r Cyngor ddatblygu cynllun annibynnol ymateb i dwyll i nodi sut y dylai ymateb i'r holl amheuaeth o dwyll neu lygredigaeth a nodwyd (**paragraff 10**). |
| **A4** | Dylai'r Cyngor sicrhau bod yr holl staff a chynghorwyr yn ymwybodol o drefniadau'r Cyngor, yn deall y risgiau a'u cyfrifoldebau drwy hyfforddiant gwrth-dwyll cymesur (**paragraffau 11-12**). |

| | |
|---|---|
| **A5** | Dylai'r Cyngor adolygu gwiriadau cyn cyflogaeth i sicrhau ei hun fod ystyriaeth ddigonol a chymesur o wrth-dwyll yn ei broses recriwtio (**paragraff 13**). |
| **A6** | Dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau presennol i sicrhau'r cyfleoedd gorau i atal twyll drwy nodi'n glir ddull y Cyngor o ran rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll a brofwyd (paragraff **14**). |
| **A7** | Dylai'r Cyngor ddatblygu cynllun gwrth-dwyll sy'n cwmpasu gwaith ataliol. Dylai hyn nodi'n glir ei flaenoriaethau, ei gyfrifoldebau a'r adnoddau sydd eu hangen i ymateb i'r risgiau yn ei asesiad o risg o dwyll (**paragraff 16**). |

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom archwilio trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys archwilio polisïau, gweithdrefnau ac arferion gweithredol.

Digwyddodd y gwaith maes yn ystod mis Tachwedd 2025.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ymdriniodd y cwestiynau â meysydd allweddol gan gynnwys:

- arweinyddiaeth a diwylliant;
- fframwaith rheoli a rheolaeth risg;
- polisïau a hyfforddiant;
- capasiti ac arbenigedd;
- offer a data;
- cydweithredu; a
- llywodraethu.

### Meini Prawf

Fe wnaethom seilio ein hasesiad ar safonau cydnabyddedig a chanllawiau statudol, gan gynnwys:

- argymhellion yn yr adroddiad Gwella Ein Perfformiad: Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, Gorffennaf 2020 fel sail ar gyfer trefniadau gwrth-dwyll priodol;
- adolygiadau lleol blaenorol Archwilio Cymru o drefniadau gwrth-dwyll; a
- myfyrio ar yr egwyddorion yn yr adroddiad Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru gan Archwilio Cymru, yn arbennig elfennau allweddol diwylliant gwrth-dwyll effeithiol.

# Dulliau

Fe ddefnyddiom ni ddau ddull i gasglu tystiolaeth:

- **Adolygiad o ddogfennau** – Fe wnaethom archwilio dogfennau mewnol, gan gynnwys strategaeth a phrotocol y Cyngor ar wrth-dwyll, ei bolisïau, canllawiau, adroddiadau ar berfformiad, a dogfennaeth Archwilio Mewnol. Fe helpodd y rhain ni i ddeall trefniadau llywodraethu'r Cyngor, ei weithrediadau a'r modd y mae'n cydymffurfio.
- **Cyfweliadau** – Fe gynhaliom ni gyfweliadau strwythuredig gyda staff a chynghorwyr sy'n rhan o oruchwylio a rheoli trefniadau gwrth-dwyll, gan gynnwys uwch swyddogion. Fe helpodd y trafodaethau hyn ni i ddeall sut mae polisïau a gweithdrefnau yn gweithio'n ymarferol.

# 2 Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru’n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n gorff a sefydlwyd i gefnogi’r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.